Adroddiad Blynyddol Cynllun Colegau Cymru 2015-2016

1. Rhagair Tud 2

2. Trefn Ymweliadau Cymedroli 2015 Tud 2

3. Darpariaeth y Broses Cymedroli o fewn pob Canolfan Tud 4

4. Argymhellion Tud 8

Atodiad A - Crynodeb Data Cynllun Colegau Cymru 2015 Tud 11

- Niferoedd sy'n astudio'r ddau gwrs ar draws y Canolfannau
- Cyrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn
- Cyrhaeddiad manwl myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Rhagair:

Dilynir ffurf adroddiad blynyddol 2014-2015, gan nad oedd cyfle i gyflwyno'r adroddiad a thrafod yr argymhellion y llynedd, ymgorfforir y pwyntiau perthnasol eto eleni gan hyderu y bydd cyfle i gynnal cyfarfod ddechrau Medi, 2016.

Trefn Ymweliadau Cymedroli 2016

Anfonwyd y canllawiau dilynol at y tiwtoriaid wrth gadarnhau/holi am restr o ddyddiadau cyfleus i ymweld â phob Canolfan.

Ffurf ac amserlen ymweliadau arsylwi a chymedroli, Gwanwyn 2016:

9.00 - 12.30: Cyfweld â grwpiau yn ôl yr asesiad mewnol ar bob Cam i gadarnhau'r nodweddion. Y cyfweliadau grŵp i barhau tua 20 munud gyda'r amserlen yn rhedeg bob hanner awr; trefnir croestoriad o unigolion ar y Camau, gyda'r ddealltwriaeth y bydd aelodau rhai grwpiau ar brofiad ysgol.

1.00 ymlaen: Cyfle i gwrdd â thiwtoriaid a chynnal trafodaeth (i) am unrhyw anawsterau penodol sy'n berthnasol i'r Ganolfan, (ii) am faterion perthnasol a chyffredinol ynglŷn â'r Cynllun, gan nodi sylwadau ar gyfer trafodaethau pellach yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf; cyfle yn ystod y prynhawn i ddarllen croestoriad o aseiniadau, edrych ar bortffolio/s unigolion a'r adnoddau a grëwyd gan hyfforddeion a hynny yng nghwmni'r tiwtor/iaid os yn bosib.

Amcan o gynnwys y cyfweliadau yn ôl Y Crynodeb Safonau a'r Nodweddion:

Ar Gam 1:

- Llafar: Cyfarch, cyflwyno'u hunain, manylion personol – yn ôl */**/***
- Darllen: Dewis o lyfr addas i ddisgyblion cynradd (Blynyddoedd Cynnar) gan y tiwtor i aelodau'r grŵp ddarllen/ymateb i *gwestiynau syml/**cwestiynau manwl /***ymestynnol
- Cyflwyno gwybodaeth am y *sefydliad (lleoliad, cwrs Cymraeg etc)/+**lleoliad profiad ysgol a phrofiadau dysgu'r Gymraeg i ddisgyblion / defnyddio Cymraeg pob dydd /+***sôn ac arddangos adnodd a gyflwynwyd/ddefnyddiwyd yn y dosbarth

Ar Gam 2:

- Llafar: Cyfarch a chyflwyno manylion personol yn hyderus, yn gywir ac ymestynnol ee: arddangos gallu i amrywio ffurf y ferf, gorffennol/dyfodol/ trafod yn ôl*/**/**
- Trafod cyfnod profiad ysgol, tystiolaeth o ddefnyddio Cymraeg pob dydd yn yr ysgol: Oeddech chi yn…? (dysgu/gyfrifol am… mwynhau…)

- Darllen: tiwtor yn dewis llyfr (CA2) i'r grŵp drafod a *mynegi barn/+**ymestyn trafodaeth/+***cymharu â llyfr/au neu ddeunyddiau ymestynnol ar gyfer yr iaith
- Cyflwyno enghraifft o gynllun gwers a gyflwynwyd (os yn bosib) a thrafod y defnydd o Cymraeg pob dydd yn y dosbarth yn ogystal â chynnwys y wers

Ar Gam 3:

- Llafar: Dilyn y patrymau uchod gan gynnal sgyrsiau naturiol/ ymestynnol, holi cwestiynau perthnasol, ymateb i safbwynt, trafod agweddau ar ddysgu Cymraeg, yn yr ysgol a'r dosbarth ac effeithiolrwydd strategaethau Cymraeg pob dydd, arddangos gwybodaeth o lenyddiaeth/ y sin pop/chwaraeon/ celf /gweithgareddau perthnasol /mannau hanesyddol yn ôl argymhellion Y Cwricwlwm Cymreig a lefel hyfedredd unigolion (Cam 3*/**/***) Efallai mai pâr neu unigolyn fydd mewn cyfweliad Cam 3
- Darllen: Testun addas byr o daflen wybodaeth/ Golwg /bapur newydd yn hyderus *trafod cynnwys/**cyfleu ymateb ac egluro cynnwys/***cyfleu gwybodaeth, mynegi barn a dadansoddi ystyr.
- Cyflwyno enghraifft o werthusiad gwers sy'n dystiolaeth o waith ysgrifenedig ymestynnol yn ôl Nodweddion y Safonau. */**/*** neu waith ysgrifenedig estynedig arall.

Cyfweliadau Cymedroli 2016:

Mawrth 9fed: YDDS, Abertawe [18 hyfforddai] 5 grŵp

Mawrth 10fed: Prifysgol De Cymru, Caerllion [20 hyfforddai BA (Anrhydedd)] 4 grŵp

Mawrth 11eg: Metropolitan, Caerdydd [25 hyfforddai TAR] 6 grŵp

Ebrill 21ain: Ysgol Addysg Bangor [21 hyfforddai BA (Anrhydedd)] 5 grŵp

Nid yw'n fater rhwydd i diwtoriaid drefnu cyfnodau ar gyfer y broses cymedroli yn y canolfannau gan fod trefn amserlen blwyddyn yn gwahaniaethu ymhob sefydliad; rhai yn mynychu sesiynau hyfforddiant mewnol tra bod eraill ynghanol profiad dysgu. Diolch i arweinyddion cwrs a thiwtoriaid am eu trefniadau trylwyr arferol.

Cyfwelwyd 84 o hyfforddeion o fewn 20 grŵp eleni; y mae ystadegau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cofnodi'r cyrsiau TAR a Chyrsiau BA ar wahân. O ystyried cyfyngiadau amserlen a phrinder oriau'r hyfforddeion yn gyffredinol, (yn enwedig yn y cyrsiau TAR), mae cofnodi cyraeddiadau'r ddau gwrs ar wahân yn cynnig darlun mwy cytbwys.

Darpariaeth y Broses Cymedroli o fewn pob Canolfan:

Rhan A:

1. Oedd ffurf yr asesu'n gytbwys a theg o fewn pob sefydliad?

Oedd. Roedd trefniant y cyfweliadau'n debyg ymhob sefydliad, yn ymateb i'r canllawiau. Bu'r hyfforddeion yn cyd-weithio i ateb a holi cwestiynau o fewn y grwpiau, arddangos sgiliau llafar a darllen a thrafod esiamplau o'u gwaith ysgrifenedig, egluro ac arddangos y deunyddiau i ddatblygu medrau dysgwyr yn y dosbarth. Cawsant gyfleoedd i fynegi barn a thrafod y ddarpariaeth o fewn y sefydliad ac o fewn ysgolion partneriaeth. Bu cyfle hefyd i diwtoriaid gyflwyno mewnbwn a chynnal trafodaethau yn ystod y prynhawn.

2. Oedd ffurf yr asesu'n adlewyrchu nodau'r rhaglen?

Oedd. Nodwyd cyrhaeddiad aelodau'r grwpiau ar gyfer y cymedroli; roedd asesiadau mewnol pob canolfan yn adlewyrchu nodau'r rhaglen a'r portffolios yn cadarnhau hynny.

3. A gawsoch gyfle i gyfweld â chroestoriad o hyfforddeion?

Do, gydag eglurhad am absenoldebau (4 hyfforddai yn unig). Dangoswyd gofal wrth ddewis a dethol croestoriad teg o fewn y grwpiau, er bod aelodau rhai grwpiau ar wahanol lefelau o fewn Cam, (yn naturiol, mae hynny'n dibynnu ar gefndir neu brofiad blaenorol unigolion o'r iaith) ac fe geir amrywiaeth o fedrau o fewn grwpiau a gyfwelir, yn yr un modd â'r grwpiau sy'n cael eu ffurfio yn flynyddol yn y canolfannau.

4. Oedd y trefniadau ar gyfer y broses yn foddhaol?

Roedd trefniadau pob canolfan yn effeithiol, a rhai hyfforddeion yn mynychu'r cyfweliad ynghanol eu cyfnod profiad dysgu. Mae'r broses cymedroli'n digwydd mewn cyfnod byr, penodedig sy'n sicrhau cydbwysedd teg rhwng y canolfannau.

5. A roddwyd ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad diwethaf?

Do o fewn yr adroddiad yma ac adroddiad 2014-2015.Hyderir y bydd cyfle yng Nghyfarfod Blynyddol 2015-2016 i drafod argymhellion a darganfyddiadau'r ddau adroddiad ar y cyd.

6. Unrhyw Sylwadau Pellach:

Rhaid codi materion (a drafodwyd hefyd yn adroddiad 2014-15):

"Credir bod diffyg ymwybyddiaeth am Nodau, Amcanion a chynnwys y Cynllun ymysg rhai aelodau timau rheoli'r canolfannau."

Oherwydd hynny mae'n anochel nad yw'r wybodaeth angenrheidiol yn cyrraedd aelodau Asiantaethau allanol, sefydliadau cenedlaethol eraill, nid yw, er enghraifft yn ymddangos yn rhan o lwybr ymholiad mewn arolygon Estyn.

Sicrhawyd eisoes bod cyfieithiad cryno o brif ddarganfyddiadau, argymhellion ayb yn ymddangos ar ddiwedd adroddiad CCC er mwyn i aelodau timau rheoli di-gymraeg ddeall y gofynion a'r broses.

Dylai'r wybodaeth am gynllun sy'n dysgu'r Gymraeg i ddysgwyr HCA cynradd ac sy'n cynnig arweiniad i strategaethau methodoleg drwy ganolfannau Cymru fod yn wybodaeth gyffredinol i unigolion o fewn sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau addysg, arholwyr allanol ac aelodau timau arolygu Estyn cyn unrhyw ymweliadau â'r sefydliadau. Mae'n fater o bwys, i'w drafod ar fyrder.

"Nid yw, er enghraifft yn ymddangos yn rhan o lwybr ymholiad mewn arolygon Estyn"; gall anwybodaeth am gynnwys ac amcanion cynllun addysgiadol adlewyrchu'n annheg mewn adroddiadau swyddogol os yw arholwr allanol neu aelodau tîm arsylwi/arolygu yn ansicr o bwrpas a chyfeiriad yr hyfforddiant. Gallai hynny arwain at danseilio hygrededd rhan o gwrs. O ystyried bod Cynllun Colegau Cymru'n [y Cynllun] bodoli ers dros chwarter canrif ac wedi datblygu'n llwyddiannus a chyson dros y cyfnod, mae'n anodd credu na fyddai arolygwyr yn ymwybodol o'r gofynion, effeithiolrwydd y cynnwys a llwyddiant yr hyfforddeion sy'n dilyn y Cynllun.

Mae dogfennaeth ddwyieithog ar gael ar-lein i egluro'r amcanion a hynny'n nodi mai cynllun ar gyfer hyfforddeion y sector cynradd - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yw darpariaeth Cynllun Colegau Cymru.

Rhaid sicrhau bod gwybodaeth am y Cynllun yn cael ei ledaenu yn fwy effeithiol yn genedlaethol.

Eleni wrth gyfweld hyfforddeion, daeth yn amlwg, fel y llynedd:

BOD diffyg ymwybyddiaeth am fodolaeth ac amcanion y Cynllun yn parhau mewn amryw o'n hysgolion cynradd, yn ogystal ag asiantaethau a chyrff addysgiadol eraill. Cafodd rhai hyfforddeion a geisiodd gyfleoedd i addysgu'r Gymraeg yn ystod cyfnodau profiad ysgol eleni eu gwrthod, gan mai '*athrawon bro sy'n dysgu'r Gymraeg'* neu '*arbenigwr mewnol sy'n hyfforddi'* … ayb. Mae angen cynnig cyfarwyddiadau pendant o'r newydd **fod** disgwyl cyfleoedd ac arweiniad mentor Cymraeg mewn ysgolion partneriaeth i gefnogi hyfforddeion sy'n mireinio eu sgiliau. Onid yw'r ymateb yma'n codi cwestiynau difrifol sydd angen trafodaeth ar lefel cenedlaethol?

Rhan B:

1. Materion Asesu, Y Portffolios ayb

Dyma'r ail flwyddyn o dreialu tasgau Portffolio TAR a BA, erbyn eleni, mae pob sefydliad wedi cychwyn gosod y tasgau ac fe fydd llyfryn samplau yn cael ei gynhyrchu yn ystod y misoedd nesaf. Bydd cyfle yn ystod y Cyfarfod Blynyddol i gychwyn y broses o lunio llyfryn samplau asesu a ddylai fod o gymorth, yn enwedig i nifer o'r tiwtoriaid rhan amser. Gwelwyd enghreifftiau hynod safonol o waith ysgrifenedig yn y canolfannau ac adborth ysgrifenedig y tiwtoriaid a'r targedau ar

gyfer ysgrifennu yn y dyfodol yn fanwl ac effeithiol iawn. Mae'n gam positif sy'n cysoni'r asesiadau o fewn pob canolfan.

2. Safonau Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau'r hyfforddeion

Da iawn. Mae'r amrywiaeth yng nghefndiroedd hyfforddeion yn gallu peri anhawster wrth grwpio ar gychwyn y cwrs ond gwelir bod cynnydd a datblygiad amlwg dros y misoedd. Os ydynt yn barod i ymrwymo i'r gwaith, mae'r sgiliau'n datblygu'n sydyn ond mae'r angen am gyfleoedd i brofi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a mireinio'r sgiliau hanfodol yn ddibynnol ar gyfleoedd i dreialu ac ymarfer ar lawr y dosbarth o fewn cyfnodau profiad dysgu.

Cynllunnir ffocws arbennig ar agweddau o gynnwys y Cynllun wrth ymdrin â'r broses cymedroli flynyddol; bu'r ffocws eleni ar drafodaeth i brofi'r defnydd a wneir o strategaethau *Cymraeg Pob Dydd* yn y dosbarth ac effeithiolrwydd defnyddio *iaith achlysurol* gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar draws y cwricwlwm.

Gwelwyd bod darpariaeth dda yn sesiynau dysgu'r canolfannau a phwyslais arbennig a chyson ar yr addysgu a dysgu. Mae cyflwyniadau'r tiwtoriaid o'r elfennau uchod yn effeithiol ac yn sicrhau bod hyfforddeion yn gwbl gyffyrddus ac abl i ddatblygu strategaethau amrywiol yn y dosbarth. Bu cyfleoedd i'w holi am y broses a chlywed sut roeddynt yn cyflwyno'r patrymau yn gyson a chadarn i'w disgyblion ifanc.

Roedd yr hyfforddeion a gafodd gyfleoedd i ymarfer y grefft a'r sgiliau yma yn ystod profiad ysgol yn gallu adrodd yn ôl bod creu cyfleoedd i ddefnyddio'r technegau yn 'gweithio', a'u bod yn teimlo'n hyderus yn eu defnyddio ac yn gweld mor berthnasol a hwyliog oeddynt. Teimlent fod cyfleoedd cyson i ddysgu ac ail adrodd patrymau iaith yn sicrhau bod dysgwyr yn gyfarwydd â'r patrymau cyffredin a ddefnyddir yn ddyddiol ar lawr y dosbarth ac o fewn yr ysgol. Cyfeiriodd amryw ohonynt at rôl bwysig *Helpwr Heddiw* yn y dosbarth a'r cynnwrf pan fo unigolyn ifanc yn derbyn y *fantell* a'r cyfrifoldeb am y diwrnod.

Da yw adrodd bod gwybodaeth a dealltwriaeth am dechnegau fel Cymraeg Pob Dydd yn cael eu dysgu, eu harfer a'u datblygu'n hynod effeithiol yn y canolfannau a bod hyfforddeion yn gallu eu defnyddio, nid yn unig yn ystod y wers Gymraeg ond yn ddyddiol ar draws y cwricwlwm yn ystod cyfnodau profiad ysgol.

3. Cymhariaeth safonau â sefydliadau eraill

Mae cefndir ieithyddol hyfforddeion pob sefydliad yn amrywio'n fawr, mae'n fater o gymharu â phenderfynu'n *ddamcaniaethol* ar gyrhaeddiad unigolyn gan wybod bod awdit mynediad ac awdit ddiwedd cwrs yn dadansoddi a mesur llwyddiant yn ystadegol. Mae'r safonau yn drylwyr ymhob sefydliad a'r asesiadau yn deg. Mae cynnwys tasgau heriol y Portffolio'n ei wneud yn haws cymharu 'r gwaith ysgrifenedig yn ogystal â safon llafaredd a darllen hyfforddeion yn y canolfannau.

4. Y Broses Cymedroli

Yn y gorffennol bu'n anodd trefnu ymweliadau cymedroli gan fod amserlen pob canolfan yn dynn iawn a nifer o hyfforddeion ar brofiad dysgu ar adegau gwahanol o fewn pob canolfan. Y mae'n bwysig mesur datblygiad hyfforddeion o fewn ffrâm amser teg ac eleni, llwyddwyd gweinyddu hyn yn effeithiol iawn. Gweithredwyd y cymedroli rhwng Mawrth 9fed ac Ebrill 21ain, 2016.Wedi ystyried opsiynau a thrafod gyda thiwtoriaid, credir yn gyffredinol mai ffurf ar batrwm cymedroli yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur a chymharu datblygiadau, gan gofio nad yw'r Cynllun yn rhan annatod o'r radd ymhob canolfan. Mae modd adrodd yn ôl i bawb ar y diwrnod ac mae'n fodd effeithiol o fonitro cynnydd; mae'n amhosib gwneud hynny trwy ddadansoddi ystadegau ar sgrin yn unig. Gellir trafod y broses ymhellach yn ystod y cyfarfod blynyddol.

Mae cyflawniad grwpiau'r canolfannau yn newid bob blwyddyn a hynny yn ôl gwybodaeth a phrofiadau cynhenid unigolion. Nid yw'r man cychwyn yn gyffredin, felly, mae'n angenrheidiol cloriannu'r perfformiadau a'r canlyniadau; mae'r broses cymedroli'n rhan hanfodol o hyn. Rhaid adleisio'r neges mai pwrpas y broses cymedroli yw sicrhau safonau, cydraddoldeb a chysondeb ar draws y canolfannau.

5. Enghreifftiau o arfer dda

Nodwyd eisoes bod y ddarpariaeth a'r defnydd o Gymraeg Pob Dydd yn amlwg iawn ymhob canolfan ac yn effeithiol dros ben. Gwelir nifer helaeth o adnoddau hyfforddeion ac arddangosfeydd deniadol ymhob Canolfan bob blwyddyn. Eleni gwelwyd hysbysebion am Ddiwrnod y Llyfr, Diwrnod Iaith Shwmae/S'mae, arddangosfeydd o waith thematig. Roedd enghreifftiau o waith iaith ar furiau'r ystafelloedd dysgu, siartiau, mapiau, baneri, matiau iaith (Cynllun Y Porth) wedi eu lamineiddio a'u chwyddo i faint A3 ac adnoddau hynod effeithiol wedi eu creu gan unigolion. Bu cyfleoedd i rai hyfforddeion ymweld â mannau addysgiadol i weld effeithiolrwydd cyplysu argymhellion y Cwricwlwm Cymreig â dysgu iaith ac i greu adnoddau i gyd-fynd â'r ymweliadau. Cynhaliwyd trafodaeth fuddiol am ymweliadau gyda mwy nag un o'r grwpiau; roedd yr hyfforddeion wedi manteisio'n fawr ar y profiadau. Mae'n ffordd gofiadwy o gofnodi, arddangos a chael unigolion i ddadansoddi effeithiolrwydd a photensial ymweliadau i ddatblygu dysgu iaith ar draws y cwricwlwm.

Bu cyfle i ddarllen cynnwys Portffolio nifer o hyfforddeion, mae'r tasgau yn safonol, yn gosod patrwm sy'n sicrhau datblygiad a gwelliant sgiliau iaith ysgrifenedig darpar athrawon ac yn eu cyfeirio'n effeithiol at ffurfiau angenrheidiol o ysgrifennu ar gyfer anghenion gyrfaol. Mae tracio effeithiol yn y canolfannau a'r tiwtoriaid wedi ymgorffori'r asesiadau yn llwyddiannus. Mae'r sustem asesu yn cynnwys adborth ac argymhellion ymarferol i'r hyfforddai a'r cynnwys yn werthfawr i'r cyrsiau TAR a BA ac yn ganllaw defnyddiol i unigolyn ar ddechrau gyrfa. Cynlluniwyd nifer o restri gwirio defnyddiol gan y tiwtoriaid a da fyddai cael gweld y rhain yn ystod y cyfarfod blynyddol pan gwyd cyfle i drafod ymhellach.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn hynod ddefnyddiol yn ystod y broses cymedroli, mae'n cynnig modd o ehangu cyfweliadau a thrafod profiadau personol awduron ac yna, yn dilyn, gyda'r tiwtoriaid yn sesiwn y prynhawn.

6. Sylwadau Pellach:

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg eto eleni ac mae safon Cymraeg nifer o'r hyfforddeion yn gyfoethog iawn; eraill yn llwyddo i gyfathrebu'n hyderus o dan amgylchiadau cyfweliad a nifer ar lefelau is sy'n awyddus i barhau â'r broses wedi iddynt gychwyn cyfnod anwytho.

Gwelir, fel y nodwyd y llynedd bod angen mawr am warchod darpar athrawon sy'n ddysgwyr ar gychwyn gyrfa; mae'n fater sydd angen sylw pellach.

Argymhellion:

D.S. Ni fu cyfle i drafod y materion isod mewn Cyfarfod Blynyddol y llynedd, rhain felly yw argymhellion yr adroddiad yma 2015-2016 ac adroddiad 2014-2015 hefyd. Maent angen eu trafod a'u hystyried i sicrhau parhad a llwyddiant y Cynllun at y dyfodol.

Nodir sylwadau a gasglwyd o adroddiad 2013-2014 (Kris Sobol) ar ddiwedd pob pennawd.

1. CEFNOGAETH:

Dylai athrawon sydd newydd gymhwyso barhau i dderbyn cyfleoedd i fireinio ac ymarfer yr iaith yn gyson yn enwedig yn ystod eu blwyddyn anwythiad, gyda'r ddealltwriaeth y byddai cyfnod hwy na hynny'n ddymunol. Yn anffodus, nid yw'n digwydd yn y mwyafrif o ysgolion ac mae'n angenrheidiol rhoi ystyriaeth bellach i'r mater.[Nodwyd hyn yn Adroddiad 2013-2014 hefyd yn Adran 9, Rhan B, pwynt 4 *'…myfyrwyr newydd gymhwyso i dderbyn hyfforddiant bellach a thracio gofalus']*

2. Y PORTH:

Gwelwyd cynnydd eleni ymysg yr hyfforddeion a ddangosai ymwybyddiaeth o gynnwys y wefan, ond yn sicr mae gwir angen codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth yn yr ysgolion cynradd a bod athrawon yn ymwybodol ohono ac yn manteisio a defnyddio'r ddarpariaeth.[gweler Adroddiad 2013-2014, Adran 9, Rhan A, pwynt 6 '…*argymell hyfforddeion i ddefnyddio adnoddau ar lein..']*

3. AMSERLENNU A STAFFIO SESIYNAU:

Credir bod y sefyllfa yn well yn y canolfannau eleni na'r llynedd, er bod pwysau enfawr ar diwtoriaid unigol i geisio ymateb i'r gofynion sydd arnynt mewn tîm dysgu

llai ac o fewn oriau prin. Mae canmoliaeth hyfforddeion yn dystiolaeth i'r tiwtoriaid sy'n bugeilio a'u mentora'n llwyddiannus. Mae'n rhaid sicrhau bod darpar athrawon ac athrawon sydd ar fin cymhwyso yn meddu'r sgiliau a'r hyder i hyfforddi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson a datblygu'n siaradwyr rhugl, er mor fyr yw'r oriau hyfforddiant. [Adroddiad 2013-2014, Adran 9, Rhan B, pwynt 5 '…*staffio cymwys ymhob canolfan*…']

4. PARTNERIAETH GYDAG YSGOLION:

Mae'n hanfodol sicrhau codi ymwybyddiaeth am y Cynllun, datblygu cydweithrediad a chefnogaeth penaethiaid, athrawon a staff atodol yr ysgolion partneriaeth gynradd. Bu'r cydweithio yn llwyddiannus dros y blynyddoedd ac mae'n hollbwysig ei fod yn parhau.
Gweler Adroddiad 2014-2015, tud. 12 hefyd. Awgrymir bod angen trefnu sesiynau HMS i egluro'n llawnach a chyflwyno cynnwys y Cynllun a gwefan Y Porth i gyflunwyr ysgolion partneriaeth a mentoriaid o fewn ardal pob canolfan i sicrhau dealltwriaeth a gweinyddiaeth effeithiol. Mae newidiadau staffio mewnol yn ei gwneud hi'n fater o raid diweddaru gwybodaeth am gynnwys y Cynllun yn rheolaidd. Byddai gweithredu hyn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf yn fuddiol i'r ysgolion a'r canolfannau [Adroddiad 2014, *Adran 9, Rhan A, pwynt 5 'disgwyliadau profiad ysgol*..']

Ychwanegir, wedi pwysleisio'r diffyg, bod angen cyflwyno'r wybodaeth a'i ledaenu i aelodau asiantaethau, sefydliadau cenedlaethol, Estyn ayb i sicrhau ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn y canolfannau wrth gyflwyno'r iaith i ddysgwyr cynradd.

Cyflwynir y canlynol gan na fu cyfle am drafodaeth y llynedd:

Heb gymorth ac ymrwymiad mentoriaid cynradd, sy'n cynghori hyfforddeion ar gyfnodau profiad dysgu a chynnig sylfaen gadarn iddynt, bydd datblygiad a pharhad addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr ifanc ar dir sigledig. Mae angen cymryd cam pellach i sicrhau datblygiad digonol at y dyfodol a diogelu llwyddiant dysgu'r Gymraeg:

- Mae'n angenrheidiol i staff ysgolion cynradd dwyieithog ymrwymo i'r addysgu (boed ysgol bartneriaeth neu beidio.)

- Mae'n bwysig sicrhau bod parhad a datblygiad effeithiol yn yr addysgu yn digwydd <u>wedi'r Cyfnod Sylfaen ac yn ystod CA2 yn y cynradd</u>, yn hytrach nag 'ail ymweld' â'r un themâu heb symud ymlaen a datblygu patrymau a ffurfiau iaith. Yna, mae'n hanfodol bod **pontio** yn digwydd yn fwy effeithiol <u>rhwng y cynradd a'r uwchradd</u> i sicrhau ymwybyddiaeth o'r dysgu sydd eisoes **wedi digwydd** a'i gyflawni'n foddhaol yn ystod y Cyfnod Sylfaen a CA2, fel bod <u>datblygiad bywiog pellach</u> yn hytrach na'r gwyrdroi a'r ail gyflwyno hyd at syrffed a geir yn gyson yng nghynnwys yr addysgu a'r dysgu wrth i ddisgyblion symud o'r cynradd i'r sector uwchradd. Mae '*adolygu i atgyfnerthu'* yn strategaeth wahanol iawn sy'n para gwers neu ddwy, yn hytrach na blwyddyn gyfan, fel sy'n digwydd mewn amryw o ysgolion.

- Mae'r *ail ymweld* yma â themâu/geirfa/patrymau ayb yn ddigon i lesteirio diddordeb a brwdfrydedd nifer fawr o ddisgyblion ac yn arwain at fethiant. Gall ddigwydd o fewn ysgolion cynradd ac yna ym Mlwyddyn 7, 8 neu 9 ysgolion uwchradd; mae'n sefyllfa hynod drist sy'n tanseilio'r holl egni a brwdfrydedd a geir gan athrawon penigamp sy'n brwydro i fagu diddordeb a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dod yn siaradwyr Cymraeg llwyddiannus erbyn 16eg oed.

- Mae'n amlwg bod angen parhau â'r cyfoethogi i ehangu profiadau ieithyddol dysgwyr ac osgoi'r gwyrdroi. Symud ymlaen a dysgu sut i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yw'r nod.

- Trwy bontio effeithlon a chydweithrediad cynradd/uwchradd, nid yw'n rhy hwyr i osgoi argyfwng a sicrhau safonau cadarn wrth gyflwyno'r Gymraeg i'r rhai sy'n ddysgwyr.

Wrth gloi, cyfeirir at gynnwys adroddiad 2014-2015 a'r trafodaethau a'r adroddiadau a gyhoeddwyd am ddyfodol, ffurf a strwythur addysgu'r Gymraeg yn gyffredinol.

Unwaith yn rhagor, fel y llynedd dywedodd sawl dysgwr (o fewn mwy nag un o'r Canolfannau Addysg), sy'n siarad Cymraeg yn hyderus erbyn hyn, eu bod yn ymwybodol iawn i'w llwyddiant a'u gallu i siarad a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ddeillio o'r profiadau a'r gwersi Cymraeg bywiog a gawsant **tra'n ddisgyblion ysgolion cynradd** ac mae hynny fu'r ysgogiad iddynt weithio i wella a datblygu safon a chywirdeb eu Cymraeg tra'n hyfforddi fel darpar athrawon.

Yng Nghyfarfod Blynyddol 2013-2014 trafodwyd pwysigrwydd tracio athrawon newydd gymhwyso a sefydlu sustem fydd yn derbyn gwybodaeth am eu datblygiad ieithyddol a phroffesiynol ar gychwyn gyrfa. Hwy fydd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf o Gymry ifanc; dylem fuddsoddi'r amser a'r gefnogaeth hanfodol i sicrhau eu bod wedi eu harfogi i ymroi ac ymateb i'r dasg.

Dymunaf ddatgan diolch i diwtoriaid pob sefydliad am eu cydweithrediad brwdfrydig a'u trylwyredd ac i'w hyfforddeion am arddangos eu balchder wrth ddefnyddio'r sgiliau sy'n eu meddiant o ganlyniad i'r addysgu. Hefyd i Joanna Evans am ei chymorth parod ac aelodau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y gefnogaeth.

Ann Tegwen Hughes

14eg Gorffennaf, 2016
[Adroddiad CCC.doc.x]

O.N. Mae'r trafodaethau a phwysigrwydd sicrhau darpariaeth teilwng o'r radd flaenaf wedi grymuso'n sylweddol o ystyried datganiad Llywodraeth Cymru gan Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru ar faes Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, 2016, y bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Y mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau bod yr addewid yn cael ei gwireddu.

Crynodeb Data Cynllun Colegau Cymru 2015

Niferoedd sy'n astudio'r ddau gwrs ar draws y Canolfannau

	2016 % (nifer)	2015 % (nifer)	2014 % (nifer)
Cwrs BA	44% (197)	33% (173)	35% (182)
Cwrs TAR	56% (254)	67% (356)	65% (336)
Cyfanswm	**451**	**529**	**518**

	De Ddwyrain			De Orllewin			Gogledd		
	2016	**2015**	**2014**	**2016**	**2015**	**2014**	**2016**	**2015**	**2014**
BA	38%(57)	45%	48%	33% (58)	29%	31%	36% (45)	25%	27%
TAR	62% (94)	55%	52%	67% (116)	71%	69%	64% (81)	75%	73%
Cyfanswm	**151**	**175**	**166**	**174**	**180**	**179**	**126**	**174**	**173**

CWRS BA

Cyrrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs BA	De Ddwyrain			De Orllewin			Gogledd			Cenedlaethol		
	2016 n	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)
Cam 1	0% 0	3% 2	0% 0	29% 17	33% 17	18% 10	64% 29	58% 25	65% 30	29% 46	25% 44	22% 40
Cam 2	86% 49	69% 54	81% 65	50% 29	50% 26	61% 34	20% 9	35% 15	26% 12	54% 87	55% 95	61% 111
Cam 3	14% 8	28% 22	19% 15	21% 12	17% 9	21% 12	16% 7	7% 3	9% 4	17% 27	20% 34	17% 31
Cyfanswm	**57**	**78**	**80**	**58**	**52**	**56**	**45**	**43**	**46**	**160**	**173**	**182**

Cyrhaeddiad manwl myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs BA	De Ddwyrain			De Orllewin			Gogledd			Cenedlaethol		
	2016 n	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)	2016 (n)	2015 (n)	2014 (n)
Cam 1*	0.00% 0	0.00% 0	0.00% 0	3.45% 2	1.92% 1	0.00% 0	0.00% 0	0.00% 0	0.00% 0	1.25% 2	0.58% 1	0.00% 0
Cam 1**	0.00% 0	1.28% 1	0.00% 0	12.07% 7	15.38% 8	0.00% 0	22.22% 10	25.58% 11	4.35% 2	10.63% 17	11.56% 20	1.00% 2
Cam 1***	0.00% 0	1.28% 1	0.00% 0	13.79% 8	15.38% 8	17.86% 10	42.22% 19	32.56% 14	60.87% 28	16.88% 27	13.29% 23	21.00% 38
Cam 2*	0.00% 0	5.13% 4	1.25% 1	15.52% 9	21.15% 11	41.07% 23	6.67% 3	27.91% 12	15.22% 7	7.50% 12	15.61% 27	17.00% 31
Cam 2**	21.05% 12	25.64% 20	51.25% 41	12.07% 7	15.38% 8	14.29% 8	13.33% 6	6.98% 3	6.52% 3	15.63% 25	17.92% 31	29.00% 52
Cam 2***	64.91% 37	38.46% 30	28.75% 23	22.41% 13	13.46% 7	5.36% 3	0.00% 0	0.00% 0	4.35% 2	31.25% 50	21.39% 37	15.00% 28
Cam 3*	14.04% 8	15.38% 12	12.50% 10	10.34% 6	7.69% 4	12.50% 7	2.22% 1	0.00% 0	2.17% 1	9.38% 15	9.25% 16	10.00% 18
Cam 3**	0.00% 0	12.82% 10	6.25% 5	6.90% 4	3.85% 2	3.57% 2	11.11% 5	6.98% 3	2.17% 1	5.63% 9	8.67% 15	4.00% 8
Cam 3***	0.00% 0	0.00% 0	0.00% 0	3.45% 2	5.77% 3	5.36% 3	2.22% 1	0.00% 0	4.35% 2	1.88% 3	1.73% 3	3.00% 5
Cyfanswm	**57**	**78**	**80**	**58**	**52**	**56**	**45**	**43**	**46**	**160**	**173**	**182**

Nifer = (n)

CWRS TAR

Cyrrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs TAR	De Ddwyrain						De Orllewin						Gogledd						Cenedlaethol					
	2016	n	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)
Cam 1	41%	39	46%	45	45%	39	43%	50	27%	35	32%	39	57%	46	70%	92	72%	92	46%	135	48%	172	51%	170
Cam 2	51%	48	24%	23	35%	30	44%	51	54%	69	52%	64	32%	26	20%	26	9%	12	43%	125	33%	118	32%	106
Cam 3	7%	7	30%	29	20%	17	13%	15	19%	24	16%	20	11%	9	10%	13	18%	23	11%	31	19%	66	18%	60
Cyfanswm		**94**		**97**		**86**		**116**		**128**		**123**		**81**		**131**		**127**		**291**		**356**		**336**

Cyrhaeddiad manwl myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs TAR	De Ddwyrain						De Orllewin						Gogledd						Cenedlaethol					
	2016	n	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)	2016	(n)	2015	(n)	2014	(n)
Cam 1*	12.77%	12	20.62%	20	10.47%	9	0.00%	0	0.00%	0	0.81%	1	19.75%	16	57.25%	75	37.80%	48	9.62%	28	26.69%	95	17.26%	58
Cam 1**	20.21%	19	11.34%	11	17.44%	15	6.90%	8	3.91%	5	11.38%	14	18.52%	15	9.16%	12	21.26%	27	14.43%	42	7.87%	28	16.67%	56
Cam 1***	8.51%	8	14.43%	14	17.44%	15	36.21%	42	23.44%	30	19.51%	24	18.52%	15	3.82%	5	13.39%	17	22.34%	65	13.76%	49	16.67%	56
Cam 2*	22.34%	21	0.00%	0	5.81%	5	31.90%	37	28.13%	36	21.95%	27	13.58%	11	3.82%	5	7.87%	10	23.71%	69	11.52%	41	12.50%	42
Cam 2**	19.15%	18	6.19%	6	22.09%	19	6.03%	7	18.75%	24	19.51%	24	14.81%	12	6.87%	9	0.79%	1	12.71%	37	10.96%	39	13.10%	44
Cam 2***	9.57%	9	17.53%	17	6.98%	6	6.03%	7	7.03%	9	10.57%	13	3.70%	3	9.16%	12	0.79%	1	6.53%	19	10.67%	38	5.95%	20
Cam 3*	4.26%	4	19.59%	19	17.44%	15	3.45%	4	3.13%	4	4.88%	6	3.70%	3	6.11%	8	7.09%	9	3.78%	11	8.71%	31	8.93%	30
Cam 3**	3.19%	3	4.12%	4	2.33%	2	6.03%	7	5.47%	7	5.69%	7	1.23%	1	3.82%	5	8.66%	11	3.78%	11	4.49%	16	5.95%	20
Cam 3***	0.00%	0	6.19%	6	0.00%	0	3.45%	4	10.16%	13	5.69%	7	6.17%	5	0.00%	0	2.36%	3	3.09%	9	5.34%	19	2.98%	10
Cyfanswm		**94**		**97**		**86**		**116**		**128**		**123**		**81**		**131**		**127**		**291**		**356**		**336**

Nifer = (n)